**DATGANIAD SEILWAITH GWYRDD A CHYNLLUN GWELLA BIOAMRYWIAETH**

**Nodyn cyfarwyddyd ar gyfer datblygiadau bach i gynorthwyo i ddarparu'r wybodaeth gywir.**



**C. Beth yw Datganiad Seilwaith Gwyrdd (SG)?**
Mae Datganiad Seilwaith Gwyrdd yn disgrifio sut mae seilwaith gwyrdd safle (coed, gwrychoedd a SuDS) wedi'i ymgorffori yn y cynnig datblygu. *Mae'r canllaw hwn yn drosolwg o'r wybodaeth angenrheidiol.*

**C. Pam fod angen Datganiad Seilwaith Gwyrdd arnaf?**
Mae angen Datganiad Seilwaith Gwyrdd ar bob datblygiad yn dilyn cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cymru Argraffiad 12 (PCC12), a *dyletswydd Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* i ddangos bod gan ddatblygiad fudd net i fioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd. Nid yw'n briodol ceisio'r wybodaeth hon 'yn ôl-weithredol' trwy amod ac mae'n rhaid ei darparu fel rhan o'r broses cais cynllunio.

**C. Pa fanylion sydd eu hangen yn y Datganiad Seilwaith Gwyrdd?**
Mae Datganiad Seilwaith Gwyrdd i fod yn gymesur â graddfa a natur y datblygiad, ac yn achos mân ddatblygiadau megis ceisiadau gan ddeiliaid tai, mae PCC12 yn nodi na ddylai hyn fod yn ofyniad beichus i geisyddion, ond rhaid iddo ddangos sut mae'r 'Dull Fesul Cam' wedi'i gymhwyso fel y manylir yn adran 6.4.11 – 6.4.16 o PCC12. Er mwyn cydymffurfio â Cynllun Datblygu Lleol Eryri (2016-2031) ac Adran 6 o *Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*, bydd yr Awdurdod yn mynnu bod datblygiadau arfaethedig yn cynnwys manylion mesurau gwella bioamrywiaeth. Nid oes angen i'r rhain fod yn gostus nac yn fawr o ran maint, a gallent gynnwys blychau adar, blychau pryfed a phlannu llwyni neu flodau brodorol sy'n addas ar gyfer gwenyn a pheilliadau o fathau eraill yn yr ardd.


Rhaid dangos y mesurau gwella ar y cynlluniau a gyflwynwyd ynghyd ag unrhyw fanyleb ar gyfer yr un peth y gellir ei nodi ar y cynlluniau fel anodiadau.

**C. Sut ydw i'n darparu'r wybodaeth?**
Er mwyn cynorthwyo i ddarparu'r wybodaeth y mae'r Awdurdod hwn ei angen, gellir llenwi ffurflen i ddarparu'r wybodaeth berthnasol sy'n berthnasol i bob cam o'ch datblygiad. *Mae'r canllaw hwn yn cynnwys enghraifft 'wedi'i chwblhau' o'r ffurflen wirioneddol*.

**C. Pa gyngor arall sydd i'm helpu?**
Mae’r dolenni canlynol yn ymwneud â materion Seilwaith Gwyrdd a Gwelliannau Bioamrywiaeth a all helpu i ddarparu manylion:

- Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016 - 2031
- Canllawiau Cynllunio Atodol APCE 6: Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth
- Cyngor ac Arweiniad APCE ar Wella Bioamrywiaeth
- Polisi Cynllunio Cymru 12 (PCC 12)
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Nodyn Cyngor Technegol 5 (NCT 5) – Cadwraeth Natur a Chynllunio

**Dyma enghraifft ddarluniadol o welliannau bioamrywiaeth mewn gerddi[1]**




[1]CCA Bioamrywiaeth APCAP (Tudalen 33) https://www.arfordirpenfro.cymru/wp-content/uploads/2021/06/Post-Cons-Bio-SPG-Wel.pdf

## ENGHRAIFFT O DDATGANIAD SEILWAITH GWYRDD A FFURFLEN GWELLA BIOAMRYWIAETH

| | |
|---|---|
| **Ffurflen wedi'i chwblhau gan:** | *A. N Arall* |
| **Dyddiad:** | *DD/MM/BBBB* |
| **Cyfeiriad y safle:** | *1 Stryd Fawr, Y Dref, Unrhywle, XX00 0XX* |
| **Cyfeirnod grid:** | *XX12341234* |
| **Disgrifiad o'r Cynnig:** | *Estyniad newydd i gefn yr eiddo, sy'n gofyn am dynnu un goeden a thrawsleoli gwrych er mwyn gwneud lle ar gyfer dreif newydd.* |

**1. Manylion yr holl seilwaith gwyrdd presennol ar y safle:**

| | |
|---|---|
| Ffin 1: | *Gwrych prifet* |
| Ffin 2: | *Ffens fyrddio* |
| Ffin 3: | *Gwrych amrodorol* |
| Ffin 4: | *Wal Amh* |
| Gardd Flaen: | *2 o goed (afal a cheirios)* |
| Gardd Gefn: | *5 o goed (Afal, Derw, Derw, Bedw a Chriafolen)* |
| Arall: | *Llwyni gwasgaredig yn yr ardd flaen a'r cefn* |

**2. Pa nodweddion seilwaith gwyrdd (coed, gwrychoedd, gwrych-gloddiau) sydd eisoes wedi'u tynnu oddi ar y safle a/neu sydd angen eu symud er mwyn gwneud lle i'r datblygiad?**

| | |
|---|---|
| Ffin 1: | *Dim* |
| Ffin 2: | *Ffens – Amh* |
| Ffin 3: | *Rhan 3 metr wedi'i thynnu ar gyfer mynediad newydd - **Eisoes wedi'i thynnu.*** |
| Ffin 4: | *Wal – Amh* |
| Gardd Flaen: | *Dim* |
| Gardd Gefn: | *1 goeden dderw - **Angen ei symud ymaith*** |
| Arall: | *2 o lwyni - **Angen eu symud yn yr ardd gefn*** |

**3. Sut mae'r nodweddion a gadwyd yn cael eu diogelu yn ystod datblygiad (BS5837:2012)?**

| | |
|---|---|
| Ffin 1: | *Clustogfa 2 fetr o waelod y gwrych gan ddefnyddio ffens heras (gweler isod).* |
| Ffin 2: | *Amh* |
| Ffin 3: | *Clustogfa 2 fetr o waelod y gwrych gan ddefnyddio ffens heras (Gweler isod).* |
| Ffin 4: | *Amh* |
| Gardd Flaen: | *Y rhan fwyaf o'r ardd wedi'i ffensio yn ystod y datblygiad gyda ffens heras* |
| Gardd Gefn: | *Gardd wedi'i ffensio yn ystod y datblygiad gyda ffens heras* |
| Arall: | *Gweler Adroddiad Coed BS5837 ynghlwm* |

## 4. Pa seilwaith gwyrdd sy'n cael ei blannu i liniaru colledion?

| | |
|---|---|
| Ffin 1: | *Amh* |
| Ffin 2: | *Amh* |
| Ffin 3: | *Gwrych wedi'i drawsleoli mewn rhannau o boptu'r fynedfa newydd* |
| Ffin 4: | *Amh* |
| Gardd Flaen: | *Amh* |
| Gardd Gefn: | *3 o goed (Derw, Cyll, Helyg)* |
| Arall: | *neu: Gweler y Cynllun Tirwedd atodedig* |

## 5. Pa dirlunio sy'n cael ei blannu i wella'r Seilwaith Gwyrdd?

| | |
|---|---|
| Ffin 1: | *Amh* |
| Ffin 2: | *Amh* |
| Ffin 3: | *Gwrych-glawdd wedi'i drawsleoli mewn rhannau o boptu'r fynedfa newydd* |
| Ffin 4: | *Amh* |
| Gardd Flaen: | *Amh* |
| Gardd Gefn: | *3 o goed (Derw, Cyll, Helyg)* |
| Arall: | *neu: Gweler y Cynllun Tirwedd atodedig* |

## 6. Sut bydd y gwaith plannu newydd yn cael ei reoli neu ei gynnal?

*Bydd 3 o goed yn cael eu plannu yn lle pob coeden a dynnir.*
*Bydd coed yn cael eu plannu mewn ardaloedd a gliriwyd yn flaenorol o'r holl chwyn, glaswellt a llystyfiant.*
*Mae'r coed i fod o faint 'Safon Dethol', 10-12 cm o led, 2.75-3.0 metr o daldra, â gwreiddiau noeth neu â gwreiddyn ac yn iach ac yn egnïol.*
*Bydd coed yn cael eu plannu mewn tyllau plannu 1.2m x 1.2m x 900mm o ddyfnder, gyda'r uwchbridd yn cael ei gymysgu gyda lleiafswm o 20 litr o gompost plannu coed addas a'i ailosod yn ofalus o amgylch y gwreiddiau a'i gywasgu'n ysgafn bob haen 150mm.*
*Bydd coed yn cael eu cefnogi gan stanc pren wedi'i drin a chlymau diogelu o wneuthuriad rwber*
*Dylid cynnal y gwaith plannu yn y tymor plannu cyntaf yn dilyn gweithredu'r datblygiad.*
*Bydd planhigion/coed/llwyni yn cael eu dyfrio yn ôl yr angen yn ystod cyfnodau o dywydd sych.*
*Bydd unrhyw fethiannau'n cael eu disodli ar sail tebyg am debyg yn y tymor plannu nesaf sydd ar gael.*
*Bydd gan wrychoedd brodorol 6 phlanhigyn y fetr mewn dwy res fesul cam tua 25cm ar wahân (neu 40-60cm ar wahân ym mhob rhes).*

## 7. Gwelliannau bioamrywiaeth

Nid oes angen i'r gwelliannau fod yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r gwaith adeiladu newydd arfaethedig; gellir eu cysylltu â'r annedd letyol neu eu gosod yn yr ardd, ond mae angen iddynt fod ar dir o fewn y llinell goch neu las. Yr egwyddor yw y dylai'r gwelliannau arwain at 'fudd net' i fioamrywiaeth.
Mae'r gwelliannau bioamrywiaeth canlynol hefyd wedi'u hychwanegu:


| Math | Lleoliad | Gwybodaeth |
|---|---|---|
| Blwch ystlumod | Ochr y tŷ (talcen 4m metr) o lefel y ddaear | Wynebu'r Gorllewin |
| Twll ar gyfer draenogod | Yn y ffens ar hyd Ffin 2 | Cytunwyd gyda chymydog |
| Blwch Adar | Cefn y tŷ – o dan y bondo | Wynebu'r Gogledd |

**8. Casgliad**

*Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd uchod, bydd y datblygiad hwn yn arwain at **Isadeiledd Gwyrdd a Buddion Net Bioamrywiaeth** ar ôl ei gwblhau.*

**9. Cynllun bras** (yn dangos cynllun bras o nodweddion y safle datblygu):

Coed a gedwir (cylch gwyrdd)
Coeden wedi'i thynnu (cylch coch)
Coed newydd (cylch oren)
Ffensys amddiffynnol (llinell borffor)
Bocs ystlumod – (croes las)
Bocs adar (croes werdd)
Twll draenog yn y ffens (croes las)
Trawsleoli rhan o wrych (saethau oren)



## 10. Lluniau o'r safle (enghreifftiau)[2]

**Presenol**

Coeden geirios – Gardd flaen



Ffin 1 - Gwrych prifet



**Arfaethedig**

Blwch ystlumod - arfaethedig



---

[2]Delwedd blwch ystlumod – Gwefan BCT https://www.bats.org.uk/our-work/buildings-planning-and-development/bat-boxes/external-ready-made-bat-boxes-integrated-bat-boxes ( https://www. greenwoodsecohabitats.co.uk/bats-boxes )